

---

## PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD MAWRTH, 17 HYDREF 2017

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Glyn Daniels, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, R Medwyn Hughes, Eryl Jones-Williams, Dewi Wyn Roberts, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Gethin Glyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd W Gareth Roberts yn Gadeirydd am 2017/18.

### 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Alwyn Gruffydd yn Is Gadeirydd am 2017/18.

### 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Dyfrig Siencyn ac Ioan Thomas

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 o Chwefror 2017 fel rhai cywir.

### 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

Cytunwyd bod yr Aelod Cabinet perthnasol yn cael bod yn bresennol i wrando ar y drafodaeth

## **8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH ADDYSG**

Adroddodd y Cadeirydd mai un cais yn unig oedd wedi ei dderbyn am y swydd.

Awgrymodd bod modd ynteu:

- Parhau i dynnu rhestr fer
- Ystyried ail hysbysebu

Cynigwyd ac eiliwyd parhau gyda llunio rhestr fer

Mewn ymateb i sylw pam nad oedd Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd wedi ceisio am y swydd, adroddodd y Prif Weithredwr y byddai'n cynnal arolwg ymysg Penaethiaid i geisio sefydlu pam nad oedd mwy o geisiadau yn cael eu derbyn, er mwyn ceisio darganfod atebion ar gyfer y dyfodol.

## **PENDERFYNWYD RHOI YR YMGEISYDD AR Y RHESTR FER**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cyfweiliadau i'w cynnal Tachwedd 8fed 2017

## **CWESTIYNAU AR GYFER Y CYFWELIAD**

Dosbarthwyd pum cwestiwn a thestun cyflwyniad ar gyfer y cyfweiliad.

## **PENDERFYNWYD anfon sylwadau am y cwestiynau yn uniongyrchol at y Prif Weithredwr**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.40 y.h.

---

**CADEIRYDD**